# Hyb Gweithgynhyrchu Gwyrdd Convatec

## Ein cynigion ar gyfer Rhymni

**YMGYSYLLTU CYNNAR:**
**14 MEHEFIN i 16 GORFFENNAF 2023**

Mae Convatec yn gwmni cynhyrchion a thechnolegau meddygol byd-eang sydd wedi ymrwymo i wella bywydau pobl â chyflyrau cronig.

Mae ein cynhyrchion a'n datrysiadau'n cael eu gwerthu mewn bron i 100 o wledydd, gan gyflogi oddeutu 10,000 o bobl ledled y byd.

Mae dau o'n naw cyfleuster gweithgynhyrchu rhyngwladol yng Nghymru – ac mae un ohonynt yma yn Rhymni.

Mae ein gweithrediad yn Rhymni yn cyflogi dros 100 o bobl, ac rydym am barhau i fuddsoddi yn ein ffatri yma i sicrhau ein dyfodol hirdymor yn yr ardal.

### Ein cynlluniau


Dyna pam rydym yn cyflwyno cynlluniau i greu ein hynni gwyrdd ein hunain i bweru gweithgynhyrchu ein cynhyrchion meddygol yn Rhymni. Mae'r cynlluniau'n cynnwys:

- Tri thyrbin gwynt ag uchder llafn uchaf o 150 metr a chynhwysedd cyfun o oddeutu 15MW.
- Fferm solar (aráe o Solar Ffotofoltäig) gyda chynhwysedd o oddeutu 5MW.

Er mwyn gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd, mae angen lleoli Hyb Gweithgynhyrchu Gwyrdd Convatec ar dir yn agos at ein cyfleuster gweithgynhyrchu yn Rhymni.

Rydym felly'n gweithio gyda ffermwyr cyfagos a'r gymuned leol i ddwyn ymlaen ein cynlluniau i gyflawni'r prosiect pwysig hwn.

Delwedd: map y safle



# Mynd i'r afael â newid hinsawdd

**Mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac mae Convatec wedi ymrwymo i chwarae ei ran drwy barhau i leihau ei ôl troed carbon. Erbyn 2045 ein nod yw dod yn sero net ledled y byd.**

Rydym am sicrhau bod yr ynni sydd ei angen ar ein safle yn Rhymni â dyfodol gwyrdd hirdymor. Gallwn ni gyflawni hyn drwy gynhyrchu ynni gwyrdd yn lleol sy'n rhydd rhag allyriadau ac sy'n cael ei effeithio llai gan farchnadoedd ynni byd-eang.

Mewn gwirionedd, mae'r ynni a gynhyrchir yn debygol o fod yn fwy na'r swm sydd ei angen i bweru gweithrediadau Rhymni Convatec. Rydym felly'n bwriadu defnyddio rhywfaint o'r gwarged hwn yn ein ffatri yng Nglannau Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru, ond mae gan hyn hefyd y potensial i gael ei ddefnyddio gan fusnesau lleol eraill a sefydliadau cymunedol.

Wedi'i leoli yng nghanol cymuned Rhymni, mae ein cynllun yn ymwneud â sicrhau dyfodol gwyrdd hirdymor i gyfleuster Convatec, lle rydym yn bwriadu parhau i gyflogi llawer o bobl leol am flynyddoedd i ddod.

## Rhagor o wybodaeth

I ddarganfod mwy a thrafod y cynigion gydag aelodau o dîm y prosiect, dewch i'n digwyddiadau cyhoeddus:

| | | |
|---|---|---|
| 4pm i 8pm | Dydd Mercher 28 Mehefin | Canolfan Gymunedol Dewi Sant, Stryd Fawr, Rhymni, NP22 5BB |
| 10am i 2pm | Dydd Iau 29 Mehefin | Canolfan Chwaraeon a Chymunedol Ael y Bryn, Teras Aneurin, Rhymni, NP22 5DR |

Fel arall, gallwch weld y cynigion ar ein gwefan yn: **convatecgroup.com/green-manufacturing-hub-rhymney**

**Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth:**
Mae trin eich data personol yn ofalus yn bwysig i ni. Ewch i'n gwefan www.convatec.com/en-gb/ i ddarllen ein polisi preifatrwydd lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl ar sut rydym yn diogelu ac yn defnyddio data personol. Gallwch ein ffonio ar 01685 701254

## Dweud eich dweud

Hoffem glywed eich barn ar ein cynigion ar gyfer Hyb Gweithgynhyrchu Gwyrdd Convatec. Rhowch wybod i ni am eich barn cychwynnol trwy:

1. Cwblhau'r ffurflen adborth naill ai'n bersonol yn ein digwyddiadau neu ar-lein yn: **convatecgroup.com/green-manufacturing-hub-rhymney**
2. Ffonio: **01685 701254**
3. E-bostio: **rhymneygreenhub@convatec.com**
4. Ysgrifennu at: **Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (nid oes angen stamp na chyfeiriad ychwanegol)

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **dydd Sul 16 Gorffennaf**. Bydd y manylion cyswllt hyn yn eich rhoi mewn cysylltiad â Grasshopper sy'n rheoli'r ymgynghoriad gyda'r tîm yn Convatec.



Delwedd: delwedd ymgynghori